ACTIVE8-16 Newsletter

Hydref 2008

Croeso i'r Cylchlythyr ACTIVE8-16 Swyddogol Cynta!

Beth ydy ACTIVE8-16

Menter Gweithgaredd Corfforol fyddai'n dilyn cael eich cyfeirio ato ydyActive 8-16

Prif nod y rhaglen yw darparu cyfle i bobl ifanc 8-16 oed sy'n dioddef o anawsterau cymdeithasol, emosiynol a chorfforol i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol.

Bydd y bobl ifanc a gyfeirir at y rhaglen yn cael 10 sesiwn o chwaraeon neu weithgaredd corfforol o'u dewis gan hyfforddwr profiadol a chymwys.

Anogir pobl ifanc i ddal ati i gymryd rhan ar ôl y cyfnod o gyfeirio gan eu galluogi i reoli eu lles a'u hiechyd eu hunain.

"Mae'r rhaglen yn agoriad i bobl ifanc er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn fuddiol iawn iddynt."
Adborth Rhiant

Partneriaid Cyfeirio

Cyfeirir pobl ifanc at y rhaglen Active 8-16 drwy Broffesiynau Iechyd Plant. Mae'r rhain yn cynnwys:

Ffisiotherapyddion
Deietegwyr Plant
Therapyddion Galwedigaethol
Nyrsus Ysgol
Gweithwyr Cymdeithasol
Paediatryddion
Tîm Cefnogi Ymddygiad
Gweithwyr Ieuenctid
Gweithwyr Cefnogi

Os hoffech chi fod yn gysylltiedig â'r rhaglen fel Partner Cyfeirio neu os am unrhyw wybodaeth, cysylltwch â Chydlynydd Active 8-16 .

Eich Cydlynydd Active 8-16:
Yen Leung

Cyngor Sir y Fflint
Datblygu Chwaraeon
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1TH

01352 702481
yen_leung@siryfflint.gov.uk

Sir Y Fflint CHWARAEON SPORT Flintshire

Gweithgareddau Cyfredol ar gael drwy

ACTIVE8-16

Nofio

Bwcle, Fflint, Cei Connah, Treffynnon

Tae Kwon Do

Glannau Dyfrdwy/Treffynnon

Trampolinio

Glannau Dyfrdwy

Gweithgareddau Aml- Chwarae

Fflint

Ffensio

Yr Wyddgrug ac Abergele

Y Gampfa Iau

Yr Wyddgrug, Treffynnon, Fflint, Glannau Dyfrdwy

Mae'r rhaglen Active 8-16 yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfannau Hamdden ar draws Sir y Fflint gan anelu at ddarparu ystod ehangach o gyfleoedd i'r bobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio ati.

actif

Sports and leisure for the whole community...

Ar hyn o bryd mae Active 8-16 yn cysylltu â Chlybiau a Sefydliadau Cymunedol eraill ar draws Sir y Fflint.

Os ydych yn aelod o Glwb neu Sefydliad ac am fod â chysylltiad â'r rhaglen, os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â chydlynydd Active 8-16 am y manylion.

ACTIVE8-16 Astudiaeth Achos

Cafodd Jack ei gyfeirio at y rhaglen Active 8-16 gan ei ffisiotherapydd. Nid oedd yn gallu symud llawer o gwmpas gan fod ganddo broblem gyda'i bwysau, roedd hefyd yn ei chael hi'n anodd i gymysgu ag eraill gan ei fod yn eithaf swil.
Dewisodd nofio fel y gweithgaredd i gymryd rhan ynddo, gyda'i allu i nofio ar lefel dechreuwyr.
Ar y dechrau cafodd Jack sesiynau nofio un wrth un yng Nghanolfan Hamdden Bwcle.
Ar ôl 5 o'r sesiynau hyn penderfynodd yr hyfforddwr ei fod yn barod i ymuno â sesiwn nofio grŵp, cyn belled â'i fod o'n ddigon hyderus i ymuno â grŵp.
Penderfynodd Jack ymuno â'r sesiynau grŵp hyn, gan ddal ati i ddatblygu ar ei sgiliau nofio fisoedd ar ôl iddo fod yn y sesiynau a drefnwyd iddo gydag Active 8-16.
Ers hynny, daeth ei sesiynau nofio i ben ac mae wedi ennill sawl bathodyn a thystysgrif am ei waith. Erbyn hyn mae Jack, drwy ei gysylltiadau ag Active 8-16, yn ymwneud â chlwb gweithgaredd aml-chwaraeon ac yn dal i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol dros flwyddyn ar ôl iddo fod ar y rhaglen Active 8-16.

Mae Active 8-16 bob amser yn edrych am ffyrdd o wella'r rhaglen, os hoffech chi fod yn aelod o Grŵp Llywio Active 8-16 cysylltwch â'r Cydlynydd ar y manylion cyswllt a roddir yma.



Grŵp Llywio

Gwelwyd y byddai o fudd i'r rhaglen mewn sawl ffordd pe byddai yna Grŵp Llywio yn cael ei sefydlu ac mae Grŵp Llywio newydd Active 8-16 yn cynnwys aelodau o nifer o wahanol broffesiynau. Y prif nod yw ymestyn a gwella ar y rhaglen Active 8-16, derbyn adborth a syniadau gan y gwahanol aelodau a thrafod materion ddaw i'r amlwg yn aml o fewn y rhaglen.